

Alex Swift

Croeso. Dyma bodlediad y gyfnewidfa. Mae Anne Collis yn ymuno â mi, cyd-sylfaenydd Barod, cwmni buddiant cymunedol a sefydlwyd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Hi hefyd yw awdur yr adroddiad Not Just the Usual Suspects sy'n edrych ar fethiant polisi gofal cymdeithasol yng Nghymru i warantu i bobl ag anableddau dysgu y bywyd arferol y mae cynifer ohonyn nhw ei eisiau ac yn ei haeddu. Helo, Anne, sut ydych chi heddiw?

Anne Collis

Helo Alex. Dim ond un peth yr hoffwn ei gywiro, chafodd Barod ddim ei sefydlu i gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Roedd pedwar ohonom ni a sefydlodd e' gyda'n gilydd – roedd gan rai ohonom ni anableddau dysgu, ac roedd rhai ohonom ni heb rai a gwnaethom ni sefydlu Barod i brofi y gallem ni i gyd weithio gyda'n gilydd i redeg busnes, mewn gwirionedd. Felly, nid yw'n ymwneud cymaint â chefnogi pobl, mae'n ymwneud â bwrw ymlaen a gwneud pethau gyda'n gilydd.

Alex Swift

Diolch am y cywiriad hwnnw, mae hynny'n sicr yn gwneud synnwyr. A wnewch chi ddechrau drwy nodi'r prif bwyntiau yr ydych chi'n mynd i'r afael â nhw yn eich traethawd ymchwil 'Not Just the usual suspects' a'r prif heriau sy'n atal llawer o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru rhag byw bywyd arferol?

Anne Collis

lawn, y man cychwyn yw'r rheswm ein bod yn gwybod nad yw y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru sydd ag anableddau dysgu yn cael bywyd arferol os edrychwch chi ar unrhyw beth sy'n bwysig ar gyfer bywyd arferol fel bod a'ch drws ffrynt eich hun, gallu dewis eich ffrindiau, bod â bywyd cymdeithasol, swydd, partner, efallai cael plant os mai dyna yr ydych chi'n ei ddewis. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini naill ai'n amhosibl neu'n anhygoel o anodd eu cyflawni os oes gennych chi anabledd dysgu a'ch bod yn byw yng Nghymru. Nid problem i Gymru yn unig ydyw, ceir yr un broblem mewn llawer o rannau o'r byd. Yr hyn sy'n syndod yw mai dyma'r sefyllfa er ein bod wedi bod â pholisïau yng Nghymru yn ôl i 1971 cyn datganoli, yna polisi penodol ar gyfer Cymru yn 1983, a'r holl flynyddoedd ers hynny maent i gyd wedi bod yn addo bywyd arferol ond nid dyna y mae pobl yn ei brofi.

Dydyn ni ddim hyd yn oed yn cyfrif faint o bobl sydd â swydd ond os yw'n unrhyw beth fel Lloegr, bydd gan lai na 5% o bobl ag anableddau dysgu swydd. Mae llawer o bobl yn meddwl bod ganddyn nhw swydd oherwydd maen nhw'n cael gwybod eu bod nhw'n

mynd i weithio ond efallai eu bod nhw'n cael £5 y dydd os ydyn nhw'n lwcus am weithio'n llawn amser. Nid yw hynny'n fywyd arferol. Felly, 'Not Just the Usual Suspects' oedd yr adroddiad a ysgrifennais ar ddiwedd gwneud fy PHD. Y prif bwyntiau yn y traethawd ymchwil yw y ceir ymgynghoriad cyhoeddus y rhan fwyaf o'r amser wrth wneud polisi. Mae llywodraeth Cymru wir eisiau cynnwys ac ymgysylltu a chyd-gynhyrchu ond mae'r ymadrodd hwn "dim ond y rhai arferol sy'n cymryd rhan". Felly, yr hyn yr oeddem ni yn ei gyd-gynllunio drwy'r ymchwil oedd ffordd o gynnwys ac ymgysylltu â phobl a oedd y tu hwnt i'r achosion arferol. Felly, y teitl, nid dim ond y rhai arferol. Felly, nid yw'r pwyntiau allweddol yn syml, nid yw'n hawdd. Nid yw'n rhywbeth y gellir ei ddatrys drwy feddwl am ddamcaniaeth wych o newid neu fodel rhesymeg, fel peiriant selsig lle rydych yn rhoi hwn i mewn, mae pethau'n digwydd yn y canol, a gallwch ragweld y bydd y pethau hyn yn dod allan y pen arall – o pe bai bywyd mor syml â hynny. Os ceisiwn ni greu polisi yn y ffordd honno, nid yw byth yn mynd i roi bywyd arferol i bobl.

Os ydym yn hytrach yn meddwl am fywyd yn debycach i we lle mae popeth wedi'i gydblethu, yr hyn y mae un person yn ei wneud yn effeithio ar yr hyn y mae rhywun arall yn ei wneud, ychydig fel peli biliards yn mynd i fwrdd i bob cyfeiriad gwahanol lle mae pethau'n newid yn gyson, ni allwch roi pethau i lawr, yn sicr ni allwch reoli pethau ac ni allwch ragweld gydag unrhyw gywirdeb beth sy'n mynd i ddigwydd. Os ydych chi'n meddwl am fywyd fel yna mae angen dull cwbl wahanol o lunio polisïau. Felly, yn fy thesis, gwnaethom ni feddwl am lunio polisi sy'n cynnig gwell siawns o weithio mewn bywyd go iawn a ffordd o wrando ar y grŵp ehangaf o bobl ac ymgynghori â hwy fel bod eu holl wybodaeth, eu holl ffyrdd o wneud synnwyr o'r materion, y gellid dod â'u holl ddoethineb i gyd i fod yn rhan o ddeall y problemau ac yna gwneud polisïau i geisio mynd i'r afael â'r problemau.

Alex Swift

Mae hwn yn beth pwysig yr ydych yn cyfeirio ato oherwydd mae llawer o'r pethau y mae pobl yn tybio eu bod yn normal fel symudedd cymdeithasol sylfaenol, mynd allan a chwrrd â phobl, nid yw'r rhain yn arferol i lawer o bobl., Gallwch weld os ydych yn cwrdd â phobl ag anabledau dysgu. Yr hyn yr ydych yn ei ddadlau yw y disgwylir i bobl ag anabledau dysgu newid eu hunain i gyd-fynd â model nad yw wedi'i adeiladu ar eu cyfer o gwbl tra mai'r hyn y mae angen i ni ei wneud yw newid polisi a newid yr elfennau hynny o gymdeithas sy'n atal pobl ag anabledau dysgu rhag byw bywyd cyffredin fel y gallant deimlo mwy o groeso yn eu cymunedau a bod yn fwy rhanedig o lunio polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Anne Collis

Yn union. Dyna 100% beth yw'r broblem oherwydd nawr mae gennym bolisiau nad ydynt yn gweithio, gwasanaethau nad ydynt yn gweithio ac yn fwy dwys mae gennym agweddau a disgwyliadau mewn cymdeithas ehangach sydd mor anghywir, nid yn unig mewn perthynas â phobl ag anableddau dysgu ond unrhyw un nad yw'n ticio'r blwch 'normal', am ba reswm bynnag. Mae'r dybiaeth hon yn dangos bod rhai pethau'n normal ac os nad ydych yn ffitio bod yn rhaid i chi gael eich addasu a'ch newid fel y gallwch chi ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch ac i fynd i'r afael â bywyd. Mae'n ofnadwy, yn y bôn. Felly, y man cychwyn os ydym ni am newid pethau yng Nghymru yw dechrau newid sut yr ydym yn gwerthfawrogi gwybodaeth gwahanol bobl, a ffyrdd o ddeall pethau fel ein bod yn dechrau parchu y gall pobl ag anableddau dysgu feddwl am atebion a chynlluniau creadigol iawn a dichonadwy iawn a phethau y maent am eu gwneud. Ond, nid yw pobl yn cymryd eu gwybodaeth o ddifrif.

Alex Swift

A'r rheswm nad oes ganddyn nhw eu gwybodaeth o ddifrif fel y nodwch yn eich adroddiad yw'r ffenomenon hon a elwir yn anghyfiawnder epistemig, sef pan fydd arbenigwyr neu arweinwyr yn trin barn pobl y mae eu bywydau, eu gwaith yn effeithio'n wirioneddol arnynt fel rhywbeth i beidio â'i gymryd o ddifrif. A allwch chi fanylu mwy ar yr hyn a olygir wrth anghyfiawnder epistemig yng nghyd-destun yr hyn y mae pobl ag anableddau dysgu yn ei brofi?

Anne Collis

Wel, mae'r term anghyfiawnder epistemig yn mynd yn ôl i rywun o'r enw Miranda Fricker a ysgrifennodd y llyfr cyntaf am y pwnc hwn. Ystyr 'Epistemig' yw popeth i'w wneud â'r hyn a wyddom, yr iaith y mae'n rhaid i ni allu siarad amdani a gwneud synnwyr o'n profiadau a phopeth am sut rydym yn gwneud synnwyr o'r byd a materion cymdeithasol, felly mae hynny i gyd yn epistemig. Yn ddi-os, mae gennym ni i gyd y syniad o gyfiawnder cymdeithasol. Mae cyfiawnder epistemig yn un rhan o hynny oherwydd hyd nes y byddwn ni i gyd yn gwrandao ar ein gilydd ac yn gwerthfawrogi ein gilydd am y wybodaeth sydd gennym a sut rydym yn gwneud synnwyr o'r byd a'r hyn a wyddom, ni fyddwn byth yn cael y cyfiawnder cymdeithasol hwn. Felly, un o'r enghreifftiau a ddefnyddiodd Miranda yw bod aflonyddu rhywiol wedi bod yn digwydd yn ôl pob tebyg ers dechrau amser ond hyd nes y byddai rhywun yn meddwl am y term, nid oedd gan fenywod a oedd yn profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle unrhyw iaith, nid oedd ganddynt

ffordd i'w gyfathrebu. Felly, nid yw rhan o anghyfiawnder epistemig hefyd yn gadael i bobl gael yr iaith i fynegi'r hyn sy'n digwydd ac yn aml iawn mae pobl ag anableddau dysgu yn dal i gael eu cau allan o wybodaeth bwysig iawn, dim ond am ei bod yn cael ei hysgrifennu mewn iaith gymhleth iawn, mewn ffyrdd y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael hi'n anodd, ond byddai mewn gwirionedd yn atal pobl ag anableddau dysgu rhag cymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain oherwydd na allant gael y wybodaeth oherwydd nid yw pobl yn sylweddoli, dydyn nhw ddim yn fodlon trafferthu, maen nhw'n dweud na allan nhw ei fforddio, pob math o resymau sy'n cael eu cyflwyno.

Nid problem polisi yn unig ydyw ychwaith, mae hefyd yn broblem yn y byd academiaidd, felly cyn y gallwn ni hyd yn oed wneud unrhyw ran o'r ymchwil, roedd yn rhaid i ni fynd i'r afael â rhywfaint o hyn yn y byd academiaidd i ddod o hyd i ffyrdd y gallem hyd yn oed wneud ymchwil a oedd yn ymddangos yn gyfiawn ac yn deg ac yn trin gwybodaeth pobl yn deg, felly mae darn cyfan o'r adroddiad sy'n ymdrin â rhai o'r dulliau 'sut ydych chi'n gwneud ymchwil' sy'n epistemig yn unig, hyd yn oed cyn y gallwch chi feddwl am 'sut mae gwneud polisi a gwasanaethau yn unig?'.

Alex Swift

Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y pwynt hwn a wnaethoch chi am iaith gan nad oes modd deall yr hyn nad yw wedi'i ysgrifennu a'r hyn nad oes geiriau ar ei gyfer. Os, mewn dogfennau polisi swyddogol gan lywodraeth nad oes gennyf dermau fel niwroamrywiaeth neu awtistiaeth neu anabledd dysgu, nid ydych yn mynd i fod â dealltwriaeth dda iawn.

Anne Collis

Mae hyd yn oed yn fwy pwerus na hynny oherwydd roeddwn yn siarad â pherson a oedd â heriau iechyd meddwl eithaf difrifol. Bryd hynny, nid oedd yn gwybod ei bod yn awtistig, ond mae rhai ohonom ni sy'n gallu ei weld mewn pobl eraill yn eithaf cyflym. Gallwn sylwi ar rywun tebyg i ni. Siaradais drwy'r syniad bod pawb yn unigryw – mae amrywiaeth eang o ffyrdd o wneud synnwyr o'r byd. Dyna'r darn niwroamrywiaeth, ond bod y byd wedi'i sefydlu fel pe bai rhai ffyrdd o feddwl yn iawn ac mae unrhyw beth arall yn anghywir neu wedi torri neu'n ddiffygiol ac mae angen ei osod, ond rydym yn iawn fel yr ydym. Dydyn ni ddim wedi torri, does dim angen i ni fod yn sefydlog, rydyn ni'n rhan o amrywiaeth bywyd. Does gen i ddim anabledd dysgu. Os gallech ddychmygu, rhywun yn gorfod wynebu hyn i gyd, yr holl heriau hynny ac mae ganddyn nhw anabledd dysgu hefyd sy'n golygu bod prosesu gwybodaeth yn anoddach, gall delio ag iaith fod yn anoddach, nid yw'n syndod

bod llawer o bobl ag anableddau dysgu yn diflasu ac yn rhwystredig gyda bywyd ac yn ei chael mor amhosibl cyfathrebu.

Alex Swift

Ie yn sicr. Rydych chi wedi sôn am rai o'r bobl y gwnaethoch chi gyfarfod â nhw wrth i chi wneud y gwaith hwn. Mae gennyf ddiddordeb mewn gwybod, sut wnaethoch chi fel rhywun a oedd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer prifysgol, wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys lleisiau pobl ag anableddau dysgu yn eich gwaith ac nad oeddech yn defnyddio anghyfiawnder epistemig eich hun.

Anne Collis

Rwy'n credu bod dau ateb i hynny. Yr un cyntaf yw nad oedd byth yn ymwneud â 'chynnwys' oherwydd os oes gennyf yr hawl i gynnwys rhywun, mae gennyf hefyd yr hawl i wahardd rhywun. Felly, roeddwn yn ei chael yn haws defnyddio cyd-ddylunio a chydweithio a gweithio ar y cyd oherwydd bod hynny'n sefydlu pethau fel ein bod yn gyfartal. Un o'r heriau academiaidd oedd dod o hyd i ffordd y gallem ni weithio fel un sy'n gyfartal, yn hytrach na minnau'n ymchwilydd, chi sy'n cymryd rhan sy'n gorfod llofnodi set o waith papur â chaniatâd gwybodus. Gwelsom ffordd o'i chwmpas a oedd yn gweithio. Yn y bôn, drwy wneud pob un ohonom yn ymchwilwyr a chyfranogwyr, felly mae'n debyg mai fi oedd y myfyriwr PHD cyntaf a oedd yn gorfod llofnodi ei gwaith papur caniatâd gwybodus ei hun i gymryd rhan yn fy ymchwil fy hun, oherwydd roedd yn rhywbeth a rennir.

Y peth arall a'm stopiodd oedd bod gennyf gydweithiwr, Allen Armstrong, a oedd yn gyd-sylfaenydd arall o Barod ac yn drasig, fis Chwefror y llynedd, bu farw Allen. Roedd yn golled enfawr i Gymru ac yn golled enfawr i'r byd academiaidd gan fod gan Allen anabledd dysgu ac roedd gan Allen ffordd dda iawn o gadw golwg arnaf i. Roedd adegau pan fyddwn i'n bod yn hyf, neu y byddwn i'n gwneud pethau nad fy lle i oedd eu gwneud, ac roedd bob amser yn foneddigaidd am y peth ond byddwn i'n cael ryw olwg neu'r distawrwydd pan fyddwn yn dweud rhywbeth a byddwn i'n gwybod fy mod wedi mynd rhy bell. Rydyn ni i gyd yn mynd i wneud hynny, fe fydd gan bob un ohonom ni ragfarn, fe fyddwn ni i gyd yn anghofio, ac mae angen rhywun sydd â'r hyder fel Allen i deimlo'n gyfforddus i'n hatgoffa a rhoi prociad i ni pan fyddwn ni'n camu allan o'n lle ac yn gwneud llawer ein hunain nad yw'n dasg i ni ei wneud. Rwy'n colli Allen yn fawr iawn ac rwyf wedi dioddef yn fy ngwaith ers hynny o beidio â'i gael. Rwy'n dal i'w ddychmygu'n eistedd ar fy ysgwydd a dim ond y cof am hynny sy'n gwneud i mi ddal yn ôl.

Alex Swift

Ac rydych wedi cyflwyno eich adroddiad i Allen hefyd

Anne Collis

Do mi wnes i. Yr eironi yw iddo farw yn 49 oed. Byddai wedi bod yn 50 y llynedd, felly'r holl flynyddoedd rhwng 1971 a 2021. Y 50 mlynedd hwnnw o bolisi ar gyfer bywyd arferol. Cyflawnodd Allen hynny ond bu'n rhaid iddo ymladd. Cymerodd berson eithriadol i allu ymladd a chyflawni'r bywyd arferol hwnnw er gwaethaf yr holl bolisiau da, ac mae'n rhaid i ni newid hynny mewn gwirionedd. Fel rhan o etifeddiaeth Allen, mae angen i ni sicrhau nad oes rhaid i chi fod mor rhyfeddol ag ef i gael y bywyd arferol hwnnw.

Alex Swift

A'r peth y gwnaethoch chi gyfeirio ato mor wych am Allen ac am y cysyniad hwn o gyd-gynhyrchu a chydweithredu yw eich bod yn cael yr amrywiaeth hwn o bersbectif a all gadw golwg arnoch chi a rhoi'r safbwyntiau gwahanol hyn. Mae llawer o fyrddau mewn cwmnïau a chabinetau llywodraethau – dydyn nhw ddim yn defnyddio amrywiaeth o bersbectif gymaint gan eu bod yn defnyddio amrywiaeth o gefndir i wirio blwch. Felly, efallai y byddant yn cyflogi cabinet sy'n hanner gwrywaidd a hanner benywaidd i fynd "edrych, mae gennym gynrychiolaeth o ran rhywedd". Er eich bod yn tynnu sylw at sut nad oes angen hynny arnom yn unig. Nid yw'n ddigon cael amrywiaeth o wahanol bobl. Mae angen amrywiaeth barn ac amrywiaeth o safbwyntiau arnoch. Pam mae hynny'n wahaniaeth pwysig?

Anne Collis

Wel, os ewch chi'n ôl at rywbeth a ddywedais i ar y dechrau am sut mae bywyd yn debycach i'r we hon o bethau wedi'u plethu, yr unig ffordd y byddwch byth yn cael gafael dda ar unrhyw sefyllfa yw drwy sicrhau bod gennych bobl sy'n profi pethau o wahanol rannau o'r we honno. Felly, dyna'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth wahaniaeth persbectif. Os cymerwch, er enghraifft, fater cymdeithasol – Newid hinsawdd, mae hynny'n beth mawr ar hyn o bryd. Os ydych chi'n meddwl eich bod yn gwybod beth yw newid hinsawdd a'ch bod yn gwybod beth yw'r problemau a'r cyfan y mae angen i chi ei wneud yw ymgynghori ar atebion, rydych chi eisoes wedi colli oherwydd nad yw mor syml â hynny, nid ydym yn deall popeth mewn gwirionedd.

Mae pobl ledled Cymru yn mynd i weld y broblem yn wahanol ac maen nhw'n mynd i'w gweld o safbwyntiau gwahanol iawn. Felly, os oes gennych ffoadur sydd wedi dod i Gymru'n rhannol oherwydd bod eu gwlad yn cael ei dinistrio gan effaith newid hinsawdd,

maen nhw'n mynd i fod â phersbectif gwahanol iawn ar y pwnc newid hinsawdd na rhywun sy'n ffermwr y mae ei dir yn mynd o dan ddŵr yn rheolaidd, gan y gyrrwr lori pellter hir y mae ei fywoliaeth yn dibynnu arno yn gallu parhau i yrru. Maent yn mynd i wneud synnwyr o'r broblem yn wahanol iawn i'w gilydd. Pan fyddaf yn meddwl am amrywiaeth o gefndir, nid cefndir yn unig ydyw, ei nodweddion personol. Mae'n bethau fel nodweddion gwarchoddedig yn y ddeddf cydraddoldeb. Un o'r problemau a gewch yw, os oes gennych un o'r nodweddion gwarchoddedig, eich bod yn tueddu i godi i frig y domen drwy ddysgu gwneud synnwyr o'r byd mor agos â phosibl at y rhai sydd eisoes yn yr elit yn gwneud synnwyr o'r byd. Felly, gallech fod â grŵp o bobl lle mae gennych ddyn du, menyw Asiaidd, rhywun anabl â gradd sy'n defnyddio cadair olwyn, person hŷn, person iau ond maent i gyd wedi dysgu meddwl mewn ffyrdd tebyg iawn a dyna sut mae'n rhaid iddynt fod yn swllyd a chael eu lleisiau wedi'u clywed. Felly, gallwch fod â'r math hwnnw o amrywiaeth, sy'n wych, cewch gynrychiolaeth weledol o wahanol bobl, a byddwch yn cael gwahanol setiau o wybodaeth ond yr hyn yr ydych yn ei wybod mewn gwirionedd yw'r ffyrdd gwahanol hyn o wneud synnwyr o'r byd.

Os ydych chi eisiau gwneud polisiâu sy'n mynd i weithio mewn bywyd go iawn, maen nhw'n mynd i gael eu defnyddio ac yn effeithio ar bobl go iawn. Mae gan bobl go iawn ffyrdd gwahanol o wneud synnwyr o'r mater. Mae'n rhaid i'ch polisi wneud synnwyr iddyn nhw ac i'w bywyd a'u byd a'u ffordd o wneud pethau. Yr unig ffordd y byddwch chi'n gallu llunio polisi felly yw os oes gennych bobl ag amrywiaeth o safbwyntiau. Nid yw'n ddigon i gael amrywiaeth o nodweddion gwarchoddedig. Mae hynny'n bwysig, mae hynny'n hanfodol, mae hynny'n gam cyntaf gwych ond nid yw'n ddigon.

Alex Swift

Yn bendant, rwy'n cytuno yn llwyr â chi. Yn yr adran hon rydych chi hefyd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn o 'lunio polisiâu sy'n seiliedig ar dystiolaeth'. Nawr, mae'r term sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar yr wyneb yn swnio'n wych a gall fod yn wych eich bod yn seilio polisiâu ar dystiolaeth wirioneddol ac nid ideoleg yn unig. Fodd bynnag, mae hynny wrth gwrs yn codi'r cwestiwn o bwy sy'n penderfynu pa dystiolaeth yw hynny? a phwy sy'n penderfynu pwy sy'n cael bod yn arbenigwr?

Anne Collis

Rydych chi wir wedi darllen yr adroddiad on'd ydych chi Alex? Dyna'r cwestiwn sylfaenol. Pan fydd academyddion yn gweithio, mae'n rhaid iddynt fodloni safonau penodol. Yna mae'r gwaith yn cael ei gyhoeddi ac yn eithaf aml mae'n eistedd ar silff. Un o'r heriau o ran llunio polisiâu yw nad yw'r dystiolaeth yn mynd i eistedd ar silff – mae'n mynd i

effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl. Felly, dylai fod o leiaf mor uchel ei ansawdd â'r dystiolaeth sy'n cael ei chyhoeddi fel ymchwil academaidd. Felly, yn sicr, roedd yn rhaid iddo fod yn dystiolaeth ond yn anffodus mae llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi tueddu i werthfawrogi mathau penodol o wybodaeth fel pe baent yn safon aur a gallwch ymddiried ynddynt mewn ffordd na allech ymddiried mewn pethau eraill. Nawr, a dweud y gwir, ni fyddwn yn ymddiried yn y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ni fyddwn yn galw'r rhan fwyaf o dystiolaeth ymgynghoriadau oherwydd mai dim ond yr achosion arferol sy'n ymateb a hefyd oherwydd erbyn i ymgynghoriadau ddod allan yn gyhoeddus, dim ond cyfle i ymateb i'r hyn y mae rhywun arall wedi penderfynu yw'r broblem a beth mae rhywun arall yn credu y dylai'r atebion fod.

Felly, yn y byd newydd dewr yr wyf yn gobeithio'n fawr y byddem yn cael yr amrywiaeth hon o bobl. Un o'r pethau yn yr adroddiad o'm hymchwil oedd edrych ar ffordd academaidd gadarn o samplu o'r boblogaeth fel eich bod yn clywed gan bobl ag amrywiaeth o safbwyntiau. Gweithiais hefyd ar ddull fel y gallai pobl siarad yn rhydd ar eu telerau eu hunain am y pwnc, yn hytrach na gorfod ateb cwestiynau neu ddarllen adroddiadau. Rwy'n credu bod llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn wirioneddol bwysig. Rwy'n credu bod yn rhaid i bolisi fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Rwy'n credu mai'r broblem ar hyn o bryd yw, pan ddarllenwch chi ddogfennau am dystiolaeth a llunio polisïau yng Nghymru, eu bod yn anwybyddu ac yn gadael unrhyw beth sy'n ymwneud ag aelodau gwirioneddol o'r cyhoedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chreu'r dystiolaeth honno. Dyna'r darn y mae gwir angen mynd i'r afael ag ef a'i herio. Mae angen tystiolaeth arnom, ond mae angen math gwahanol o dystiolaeth arnom os ydym ni am gael polisïau sy'n gweithio.

Alex Swift

Mae hynny'n gwneud synnwyr ac rwyf yn deall eich ymagwedd yn llwyr

Anne Collis

Rwy'n falch oherwydd rwy'n treulio llawer o amser yn teimlo'n euog iawn mai llawer o fy hun oedd y safon, un ffordd, gadewch i ni gael gwybodaeth gan bobl, gweld sut maen nhw'n gwneud synnwyr o broblem ac yna byddwn yn dileu'r wybodaeth honno ac yn gwneud rhywbeth gydag ef. Treuliais lawer o amser yn teimlo'n eithaf euog nes i'r bobl yr oeddwn yn gweithio gyda nhw ddweud na fyddent byth wedi cytuno i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu gyd-gynhyrchu neu unrhyw beth oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'n wastraff amser. Gobeithio yn y dyfodol y byddant yn teimlo bod pwynt llunio polisïau ond tan hynny, mae angen i ni glywed eu lleisiau rywsut.

Alex Swift

Yn sicr. P'un a yw mewn cylchoedd llunio polisi neu mewn cymdeithas yn gyffredinol beth yw'r pethau y mae angen i ni eu newid yn y tymor byr a'r tymor hir i'w gwneud ar gyfer cymdeithas Cymru sy'n ffafrio cyfiawnder epistemig ac sy'n gweithio i roi bywyd arferol i bobl ag anableddau dysgu?

Anne Collis

Rwy'n credu bod angen i ni ddechrau rhyngweithio â'n gilydd fel unigolion unigryw. Rwy'n credu, cyn belled â'n bod yn rhoi pobl mewn bocsys ac yn cymryd yn ganiataol ein bod yn gwybod pethau am y person hwnnw oherwydd y label yr ydym wedi'i roi iddynt, y byddwn mewn trafferthion dwfn. Un o'r pethau roeddwn i'n dwlu arno gyda Barod o'r misoedd pan oedden ni'n gweithio allan os oedd hi'n bosib nad oedden ni'n fodlon derbyn mai dyma sut mae pethau'n cael eu gwneud. Roeddem yn dychmygu dyfodol newydd a gwnaethom ni benderfynu fyw'r ffordd honno, gweithio'r ffordd honno felly yn hytrach na gwneud pethau fel yr oedden nhw i fod i gael eu gwneud ac rwy'n credu mai po fwyaf o bobl sy'n gweithio allan sut y maent am i Gymru fod a bwrw ymlaen fel pe bai Cymru eisoes yn debyg i hynny, po gyflymaf y byddwn yn cael newidiadau oherwydd weithiau gallwn ddefnyddio ein holl egni i geisio ymladd yn erbyn pethau ac mae adegau pan fydd yn rhaid i ni wneud hynny mewn gwirionedd ond mae adegau hefyd pan fydd mor bwysig bod ychydig yn meddwl a gwybod ble rydym am fod a dim ond ceisio gweithredu fel pe baem yno'n barod

Alex Swift

Felly bron â gweithio yn erbyn y cysyniad gormesol o normal ac adeiladu ffordd newydd o wneud pethau yng nghragen yr hen?

Anne Collis

Ie, oherwydd ar bapur mae menter gymdeithasol wedi'i sefydlu a'i rhedeg gan gymysgedd o bobl ag anableddau dysgu a heb anableddau dysgu heb gyllid grant craidd, heb gontractau a heb ddim byd mewn gwirionedd. Ni ddylai fodoli ac rydym yn awr yn edrych, wyth mlynedd yn ddiweddarach fod gan Barod drosiant chwe ffigur a llwythi o bobl yn gweithio i Barod, ond er mwyn cyrraedd yno roedd yn rhaid i ni weithredu fel pe bai'r hyn yr oeddem ni yn ei wneud yn normal a phob dydd. Y pethau y mae angen i ni eu gweld yn newid yn y tymor byr yw'r rhai yr ydym yn ei gael i ddechrau gweithredu fel pe bai'r dyfodol yma eisoes, yn rhyngweithio â phobl fel unigolion unigryw, yn disgwyl i

bobl ag anableddau dysgu gael bywyd cyffredin a chael eich synnu, eich dychryn a'ch arswydo bob tro y byddwch yn cwrdd â rhywun nad oes ganddo'r hyn y gallai cymdeithas ei ystyried yn fywyd cyffredin yn hytrach na dim ond ei gymryd yn ganiataol, felly mae hynny yn y tymor byr. Yn y tymor hir, mae angen inni newid sut yr ydym yn llunio polisi, nid yn unig wrth lunio'r polisi ond hefyd o ran deall beth yw'r materion sy'n gofyn am ymyriad polisi. Mae angen i bobl fod wrth wraidd y peth, mae angen i bobl sydd â'r holl wahanol fathau o wybodaeth allu dod at ei gilydd mewn ffordd y gellir cyfuno eu gwybodaeth i gynnig ateb.